Grŵp Llywio Partneriaeth Economaidd Gwynedd

Dyddiad:	6ed o Fehefin 2008
Amser:	13:00 (Cinio ar gael o 12:30)
Lleoliad:	Galeri, Caernarfon

Mynychwyr:

Aelodau'r Grŵp Llywio neu eilyddion enwebedig

Sylwebyddion

Ysgrifenyddiaeth y Bartneriaeth

Gwesteion:

John Adshead	Adran Economi a Thrafnidiaeth (DE&T) Llywodraeth y Cynulliad
Catrin Roberts	

Ariennir a hwylusir Gweithredu dros Gymunedau Gwledig gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Rural Community Action is funded and facilitated by the Welsh Assembly Government

Grŵp Llywio Partneriaeth Economaidd Gwynedd – 6ed o Fehefin 2008

CINIO

RHAN UN: MATERION BUSNES

01. Ymddiheuriadau

02. Datganiadau o ddiddordeb personol

03. Cofnodion Grŵp Llywio 4 o Ebrill 2008 (amgaeedig - *papur melyn*):
    - Cywiro a chadarnhau
    - Unrhyw fater nad yw'n ymddangos ar y Rhaglen

04. Is-Grwpiau'r Bartneriaeth - adroddiad (amgaeedig - *papur oren*):
    - Llwyddo'n Lleol
    - Cefnogi Busnes
    - Sgiliau
    - Datblygu Gwledig
    - Adfywio Cymunedol

05. Rhaglenni Ewropeaidd Cymru:
    - adroddiad gweithgaredd (amgaeedig - *papur glas*)

06. Adroddiad Ôl-ofal (amgaeedig – *papur pinc*)

07. Adolygu'r Ddelwedd a'r Brand (amgaeedig - *papur lelog*)

08. Adolygiad Blynyddol o Aelodaeth (amgaeedig - *papur gwyrdd*)

RHAN DAU: MATERION STRATEGOL - ISADEILEDD AR GYFER BUSNES

09. Cyflwyniad gan John Adshead, Llywodraeth Cynulliad Cymru – Cydestyn Cenedlaethol a Gogledd Cymru

10. Cyflwyniad gan Catrin Roberts, Llywodraeth y Cynulliad – Cydestyn Canolbarth Cymru

11. Cyflwyniad gan Sian Jones, Cyngor Gwynedd – Stad y Cyngor

12. Trafodaeth

13. Unrhyw fater arall

14. Dyddiad a lleoliad cyfarfod nesaf y Grŵp Llywio

Cofnodion Grŵp Llywio 04 Ebrill 2008

Grŵp Llywio Partneriaeth Economaidd Gwynedd

Dyddiad: 04 Ebrill 2008
Amser: 10:00 - 13:00
Lleoliad: Canolfan Datblygu Rheolwyr Prifysgol Bangor, Bangor

Yn bresennol:

<u>Cynrychiolwyr y Sector Preifat</u>		
Dewi Lewis	*Cadeirydd*	Siop Dewi
Gwynedd Watkin		Undeb Amaethwyr Cymru
Rhys Davies		Camre Cymru
Peter Clarke		TUC Cymru
Tim Knight		Academi Sgiliau Niwclear Cenedlaethol
Geraint Wyn Parry		Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru
Evie Wyn Jones	(*Eilydd)*	Busnes Eryri Cyf
Dylan Llewelyn Roberts	*(Eilydd)*	Teithiau Hanesyddol Llewelyn
John Morris	*(Eilydd)*	J. Morris
<u>Cynrychiolwyr y Sector Gwirfoddol</u>		
Menna Jones	*Is-Gadeirydd*	Antur Waunfawr
<u>Cynrychiolwyr y Sector Cymunedol</u>		
Y Tad Deiniol		Yn Ein Blaenau
Llŷr Huws Gruffydd		Menter a Busnes
Godfrey Northam		Cynghorau Cymuned
Isgoed Williams	*(Eilydd)*	Traws-Newid
<u>Cynrychiolwyr y Sector Cyhoeddus</u>		
Emyr Williams		Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Lowri Hughes	*(Eilydd)*	Prifysgol Bangor
<u>Sylwedyddion</u>		
		Llywodraeth Cynulliad Cymru:
Ann Rybij		Croeso Cymru
Janet Jones		Is-Adran Dyfodol Cynaliadwy
Ieuan Ellis		Adran Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
		Cyngor Gwynedd*:*
Ann Owen		Cyfadran Datblygu
Natalie Jones		Cyfadran Prif Weithredwr
Phil Smith		Cwmni Ymgynghorol Hoshin
Bill Bracewell		Partneriaeth Aberdyfi
<u>Swyddogion yr Ysgrifenyddiaeth (Cyngor Gwynedd)</u>		
Sioned Williams		Pennaeth Gwasanaeth Economi ac Adfywio
Dylan Griffiths		Rheolwr Cynllunio Strategol a Rhaglenni Ariannu
Siân Lloyd Roberts		Rheolwr Sgiliau a Mentergarwch
<u>Gwahoddedigion</u>		
Robin Beckmann		Adran Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth Cynulliad Cymru
Iwan Trefor Jones		Cyfarwyddwr Strategol Datblygu Cyngor Gwynedd

RHAN UN: MATERION BUSNES

01. Ymddiheuriadau

Nodwyd fod ymddiheuriadau wedi eu derbyn gan: Fiona Williams (Gyrfa Cymru); Catrin Lloyd Perry (Cymdeithas Addysg y Gweithwyr); Ruth Bacigalupo, Dr. Trefor Wyn Jones a Catrin W Roberts (Llywodraeth Cynulliad Cymru); Wendy Crisp (Yr Hwylfan); Alex Bradley (Gwynedd Cynaliadwy); Robert O'Regan (Parker, O'Regan, Tann & Co.); Anne Lloyd Jones (Twristiaeth Canolbarth Cymru); Dorothy Hughes (Unllais Cymru); Yr Athro Sian Hope (Prifysgol Bangor); Eiddwen Borland (Canolfan Byd Gwaith); Allison Williams (Theatr y Ddraig); Dyfed Edwards (Antur Nantlle); Bethan Russell Owen (Mantell Gwynedd); Keneue Morgan (Deudraeth Cyf); Cyng. Dafydd Iwan (Cyngor Gwynedd); Rhys Evans, Vivienne Pritchard, Catrin Thomas, Nia Swann Bowden a Colin Morris (Ysgrifenyddiaeth)

02. Datganiadau o ddiddordeb personol

Dim

03. Cofnodion Grŵp Llywio 25 Ionawr 2008

- Cywiro a chadarnhau
- Unrhyw fater nad yw'n ymddangos ar y rhaglen

Trafodaeth:

i. Nodwyd fod pleidlais unfrydol i gefnogi'r egwyddor o ddatblygu cynllun i ddychwelyd rheilffordd Blaenau Ffestiniog - Trawsfynydd i ddefnydd yng nghyfarfod 25 Ionawr.

ii. Nodwyd nad oedd ymateb i'r cais am ddiweddariad ynglŷn â chynllun Goriad Gwyrdd Eryri wedi dod i law.

Casgliadau:

iii. **Cytunwyd** fod y cofnodion yn gywir.

Tasgau:

a) Derbyn diweddariad ar gynllun Goriad Gwyrdd Eryri
Ysgrifenyddiaeth cyn gynted â phosib

04. Is-Grwpiau'r Bartneriaeth

Trafodaeth: Llwyddo'n Lleol

i. Cafwyd diweddariad ar gynnwys bwletin yr Is-Grŵp Llwyddo'n Lleol gan Sian Lloyd Roberts. Nodwyd:

- fod targedau'r fenter ar gyfer 2007 / 2008 wedi eu cyflawni ac eithrio'r nifer o gymunedau yn cymryd rhan (un yn fyr)
- fod cynnwys Cynllun Gweithredol y fenter ar gyfer 2008 / 2009 wedi cymeradwyo
- fod y gyllideb ar gyfer y flwyddyn wedi' gyfyngu i £200,000 gan ddiffyg cydariannu ac, o ganlyniad, na fyddai sioeau teithiol yn cael eu cynnal

- fod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi y bydd y *Rhaglen Gweithredu Dros Cymunedau Gwledig* sy'n ariannu Llwyddo'n Lleol yn dod i ben 2009 / 2010
- fod y fenter wedi ennill tystysgrif yng Ngwobrau Rhagoriaeth Cymru Cymdeithas Llywodraeth Lleol Cymru
- fod 'Datganiad o Ddiddordeb' i'r Rhaglen Cydgyfeirio ar gyfer olynydd i Llwyddo'n Lleol yn cael ei baratoi

Trafodaeth: Cefnogi Busnes

ii. Adroddwyd nad oedd yr Is-Grŵp wedi cwrdd.

Trafodaeth: Sgiliau

iii. Cafwyd diweddariad ar gynnwys bwletin yr Is-Grŵp Sgiliau gan Sian Lloyd Roberts. Nodwyd:

- ymgynghoriadau ar Adolygiad Webb i ddarpariaeth addysg uwch yng Nghymru a'r Strategaeth Sgiliau Cenedlaethol wedi derbyn sylw
- yr Is-Grŵp yn arwain ar lunio Strategaeth Sgiliau i Wynedd a Môn
- adroddwyd i gynllun peilot i gysylltu cyfleoedd newydd â chymunedau difreintiedig wedi sicrhau fod 34 o unigolion economaidd anweithredol wedi sicrhau cyflogaeth yn natblygiad Doc Fictoria, Caernarfon.

iv. Nododd Peter Clarke pwysigrwydd sgiliau peirianyddol / crefft.

Trafodaeth: Datblygu Gwledig

v. Adroddwyd nad oedd yr Is-Grŵp wedi cwrdd.

Casgliadau:

vi. **Derbyniwyd** yr adroddiad

Tasgau:

DIM

05. <u>Rhaglenni Ewropeaidd Cymru</u>

Trafodaeth:

i. Gyflwynwyd yr adroddiad gweithgaredd gan yr Ysgrifenyddiaeth gan dynnu sylw at:

Rhaglen Amcan 1:

- Nodwyd fod Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) wedi datgan fod adnoddau ychwanegol wedi eu derbyn i'r Rhaglen o ganlyniad i gyfradd cyfnewid ffafriol ac o ganlyniad fod ceisiadau am adnoddau ychwanegol gan gynlluniau gweithredol yn derbyn ystyriaeth ar sail achos wrth achos.
- Fod rhaglen yr Ysgrifenyddiaeth o ail ymweld â rheolwyr cynlluniau yn parhau. Nodwyd fod blaenoriaeth wedi' roi i ymweld â chynlluniau yn ddibynnol ar elfen 'masnachol' i gynnig cymorth pellach i sicrhau eu parhad

Rhaglen Cydweithio Tiriogaethol Iwerddon / Cymru:

- Adroddwyd fod Roger Seddon (Swyddog Achos â WEFO) wedi ei apwyntio yn Swyddog Datblygu ar gyfer y Rhaglen yng Ngogledd Orllewin Cymru

Rhaglen Cydgyfeirio:

- Nodwyd fod WEFO wedi cyhoeddi cymeradwywyd cynlluniau cyntaf y Rhaglen
- Fod Ken Cook (ynghynt â Adran Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Llywodraeth Cynulliad Cymru) wedi ei apwyntio yn Rheolwr Ewrop gyda WEFO
- Adroddwyd fod oedi pellach yn sefydlu'r gyfundrefn Timau Gofodol Ewripeaidd (SETs) i ddarparu cymorth i ddatblygwyr a rheolwyr cynlluniau yn targedu'r Rhaglen Cydgyfeirio
- Nodwyd fod Ffurflenni Gwybodaeth Prosiectau (PIFs) ar gyfer cynlluniau arfaethedig Adrannau Llywodraeth y Cynulliad wedi dechrau ymddangos ar safle gwe WEFO
- Adroddwyd ar lwyddiant seminar ar yr economi a gynhaliwyd gan Bwyllgor Craffu Datblygu, Cyngor Gwynedd yr 26 Chwefror. Tynnwyd sylw'r Aelodau at restr arfaethedig o gynlluniau isranbarthol a strategol Gwynedd a atodwyd i'r adroddiad
- Adroddwyd fod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi sefydlu cronfa (£350M hyd at 2013) i ddarparu cydariannu i gynlluniau yn targedu nawdd o'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd. Mynegwyd pryder gan yr Ysgrifenyddiaeth, fodd bynnag, ynglŷn â maint y Gronfa, aneglurder ynglŷn â'r broses ymgeisio a blaenoriaethau arfaethedig Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer targedu'r nawdd.

Cynllun Datblygu Gwledig Cymru:

- Adroddwyd i'r Aelodau fod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi fod llithriad yn amserlen gweithredu'r rhaglen ac na fyddai cynlluniau'r Bartneriaeth yn derbyn cymeradwyaeth, petaent yn llwyddiannus, tan ddiwedd Mai.

ii. Yng nghyswllt rhestr cynlluniau Rhaglen Cydgyfeirio arfaethedig Gwynedd, holodd Godfrey Northam ynglŷn â chynnwys datblygiad safle blaenorol cwmni Ferrodo ar y rhestr. Mewn ymateb, nodwyd fod y safle ym mherchnogaeth preifat ac, o ganlyniad, na fyddai unrhyw ddatblygiad yn cael ei arwain gan Cyngor Gwynedd.

iii. Hefyd yng nghyswllt y rhestr cynlluniau arfaethedig pwysleisiwyd pwysigrwydd datblygu Rheilffordd Dyffryn Conwy i'r eithaf posib a phwysigrwydd cynnal y lein rhwng Blaenau Ffestiniog a Trawsfynydd i gludo gwastraff niwclear pan gwblheir dadgomisiynu safle Atomfa Trawsfynydd.

iv. Croesawyd fod y posibilrwydd o gynllun i uwchraddio Bont Briwet gan bwysleisio'r angen i ddatblygu pont ffordd yn ogystal â Rheilffordd.

v. Nododd Rhys Davies pwysigrwydd sicrhau ymrwymiad a mewnbwn y sector breifat i gynllun yn y maes gweithgareddau awyr agored a'r angen i sicrhau dull gweithredu cydlynol ynghyd â tharo cydbwysedd rhwng gweithgareddau tir a dŵr.

vi. I gloi'r drafodaeth ar y rhestr cynlluniau pwysleisiodd Sioned E Williams fod y rhestr yn un arfaethedig oedd yn cynnwys ystod o weithgareddau, gyda'r mwyafrif ohonynt angen buddsoddiad amser ac arian i'w datblygu ymhellach.

vii. Yng nghyswllt cronfa cydariannu'r Cynulliad ategwyd pryderon yr Ysgrifenyddiaeth gan Aelodau'r Grŵp Llywio

Casgliadau:

viii. **Derbyniwyd** yr adroddiad.

Tasgau:

b) Llythyru â Llywodraeth Cynulliad Cymru i fynegi pryder ynglŷn â'r gronfa cydariannu
Ysgrifenyddiaeth 06 Mehefin 2008

c) Cylchredeg fersiwn diwygiedig o restr cynlluniau arfaethedig Gwynedd yn cynnwys swyddogion cyswllt cynlluniau unigol
Ysgrifenyddiaeth 06 Mehefin 2008

RHAN DAU: MATERION STRATEGOL - SGILIAU

06. Cyflwyniad gan Robin Beckmann, Llywodraeth Cynulliad Cymru - Cyd-destun Cenedlaethol

Trafodaeth:

i. Derbyniwyd cyflwyniad ar y cyd-destun cenedlaethol ar gyfer y maes sgiliau, yn cynnwys datblygiad y Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth Cenedlaethol, *Sgiliau Sy'n Gweithio i Gymru,* a'r Adolygiad Webb i drefniadaeth addysg pellach; gan Robin Beckmann, Adran Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Llywodraeth y Cynulliad (amgaeedig Atodiad 1)

Casgliadau:
D/B

Tasgau:
D/B

07. Cyflwyniad gan Iwan Trefor Jones, Cyngor Gwynedd - Cyd-destun Gogledd Orllewin Cymru

Trafodaeth:

ii. Derbyniwyd cyflwyniad ar y cyd-destun rhanbarthol ar gyfer datblygu strategaeth sgiliau i Wynedd a Môn; gan Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Strategol Datblygu, Cyngor Gwynedd (amgaeedig Atodiad 2)

Casgliadau:
D/B

Tasgau:
D/B

08. Gweithdai Trafod y Maes Sgiliau

Trafodaeth:

i. Nodwyd fod pwrpas deublyg i'r gweithdai. Yn gyntaf, fod cais i Aelodau'r Grŵp Llywio darparu eu mewnbwn i lunio ymateb PEG / Cyngor Gwynedd i gynnwys drafft y Strategaeth Sgiliau a Cyflogaeth Cenedlaethol. Yn ail fod

yr Aelodau yn cynnig eu mewnbwn / arweiniad cychwynnol i baratoi Strategaeth Sgiliau i Wynedd a Môn.

ii. I gynorthwyo'r Aelodau dosbarthwyd taflenni yn amlinellu cynnwys y Strategaeth Sgiliau a Cyflogaeth Cenedlaethol a gweledigaeth / amcanion posibl i Strategaeth Sgiliau Gwynedd a Môn ynghyd â chwestiynau i'w hystyried. Gyda hynny rhannodd y rhai'n bresennol i dri grŵp trafod.

Casgliadau:
D/B

Tasgau:
D/B

09. Adrodd yn ôl o'r Gweithdai Trafod

Trafodaeth:

i. Amlinellwyd prif sylwadau'r grwpiau gan eu hwyluswyr:

Strategaeth Sgiliau a Cyflogaeth Cenedlaethol:

- Pryder ynglŷn â'r ddibyniaeth ar Gynghorau Sgiliau Sector a'u perthnasedd / dealltwriaeth o anghenion ardaloedd megis Gwynedd
- Pryder ynglŷn â'r pwyslais o fewn y Strategaeth drafft ar gyflawni cyflogaeth lawn gan fod cyfraddau cyflogaeth Gwynedd yn uwch na'r cyfartaledd ond ansawdd / gwerth swyddi yn isel
- Yr angen i flaenoriaethu datblygiad sgiliau meddal / generic ymysg plant a phobl ifanc (o ysgol gynradd ymlaen) i ymestyn eu gorwelion a chodi eu huchelgais

Strategaeth Sgiliau Gwynedd a Môn:

- Yr angen i fuddsoddi yn natblygiad sgiliau trosglwyddadwy o fewn y gweithlu
- Yr angen i adnabod sectorau blaenoriaeth o fewn yr economi a'u dafnau clir gan fod yn wyliadwrus rhag greu gormodedd o unigolion â sgiliau perthnasol
- Yr angen i sicrhau fod gan sefydliadau Addysg Pellach dealltwriaeth glir o anghenion yr economi nawr ac i'r dyfodol
- Yr angen i sicrhau cynrychiolaeth o'r sector preifat o fewn trefniadau comisiynu
- Yr angen i sicrhau fod pobl ifanc yn aros ac yn cael eu denu i'r ardal ynghyd â chadw pobl hŷn yn economaidd weithredol er mwyn ymateb i dueddiadau demograffig

ii. Yn ychwanegol, nododd Aelodau'r Grŵp Llywio yr angen i bwyso ar y sector preifat i ddarparu / manteisio ar gyfleoedd hyfforddiant. Nodwyd fod yr ewyllys i hyfforddi gan fusnesau yn y mwyafrif o achosion ond fod rhwystrau ymarferol megis eu gallu i ryddhau staff i fynychu hyfforddiant.

iii. Nodwyd fod dyddiad cau yr ymgynghoriad ar y Strategaeth Sgiliau a Cyflogaeth Cenedlaethol ar 10 Ebrill 2008.

Casgliadau:

iv. **Trosglwyddwyd** holl sylwadau'r grwpiau trafod i'w hymgorffori i ddatblygiad Strategaeth Sgiliau Gwynedd a Môn a hwyluso paratoi sylwadau ar y Strategaeth Sgiliau a Cyflogaeth Cenedlaethol (Atodiad 3).

Tasgau:

ch) Darparu sylwadau ar y Strategaeth Sgiliau a Cyflogaeth drafft
Cyngor Gwynedd 10 Ebrill 2008

10. Unrhyw Fater Arall

Trafodaeth:
DIM

Casgliad:
DIM

Dyddiad cyfarfod nesaf y Grŵp Llywio – 06 Mehefin 2008 - pwnc strategol: isadeiledd busnes

C R Y N O D E B O ’ R T A S G A U

a) Derbyn diweddariad ar gynllun Goriad Gwyrdd Eryri
Ysgrifenyddiaeth — cyn gynted â phosib

b) Llythyru â Llywodraeth Cynulliad Cymru i fynegi pryder ynglŷn â’r gronfa cydariannu
Ysgrifenyddiaeth — 06 Mehefin 2008

c) Cylchredeg fersiwn diwygiedig o restr cynlluniau arfaethedig Gwynedd yn cynnwys swyddogion cyswllt cynlluniau unigol
Ysgrifenyddiaeth — 06 Mehefin 2008

ch) Darparu sylwadau ar y Strategaeth Sgiliau a Cyflogaeth drafft
Cyngor Gwynedd — 10 Ebrill 2008

Is-Grŵpiau'r Bartneriaeth

Is-Grwpiau'r Bartneriaeth

CYFARFOD:	Grŵp Llywio Partneriaeth Economaidd Gwynedd
DYDDIAD:	6ed o Fehefin 2008
PWRPAS:	Diweddaru Aelodau ar weithgaredd Is-Grwpiau'r Bartneriaeth.
ARGYMHELLIAD:	Nodi cynnwys yr adroddiad
AWDUR:	Sioned E. Williams Pennaeth Gwasanaeth Economi ac Adfywio

1. Cyflwyniad

1.1 Mae pum is-Grŵp wedi eu pennu gan aelodau'r Grŵp Llywio i'w cynorthwyo yn eu gwaith. Pwrpas yr adroddiad hwn yw diweddaru'r Aelodau ar weithgaredd yr is-grwpiau yn y cyfnod ers cyfarfod olaf y Grŵp Llywio.

2. Is-Grŵp gweithredu Llwyddo'n Lleol

2.1 Ceir diweddariad o weithgaredd yn Atodiad 1, ble cyfeirir at y cais Cydgyfeirio, Archwyliad a Allbynnau 2008/09.

3. Is-Grŵp Datblygu Gwledig

3.1 Mae'r Is-Grŵp Datblygu Gwledig yn parhau i arwain ar ddatblygiad cynigion y Bartneriaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig. O ganlyniad i oedi yn amserlen gweithredu'r Cynllun Datblygu Gwledig (gweler Eitem 5 am ddiweddariad ar weithredu'r Cynllun), nid yw'r Is-Grŵp wedi cwrdd yn y cyfnod ers cyfarfod olaf Grŵp Llywio'r Bartneriaeth. Mae cyfarfod nesaf yr Is-Grŵp i'w gynnal ym mis Mehefin.

4. Is-Grŵp Cefnogi Busnes

4.1 Ni fu cyfarfod o'r Is-Grŵp Datblygu Busnes ers cyfarfod olaf y bartneriaeth, fodd bynnag ceir diweddariad ar Becyn Datblygu Busnes Gwedd 2, Wythnos Busnes a Gwobrau Busnes Gwynedd 2008 a 2009, Gwasanaeth Llygaid Busnes Gwynedd a Rhaglen waith y Tim rheoli Cefnogi Busnes yn Atodiad 2.

5. Is-Grŵp Sgiliau

5.1 Cyfarfu'r Is-Grŵp ar y 23ain o Fai, bydd adroddiad yn cael ei gynnwys ar gyfer yr aelodau yng nghyfarfod nesaf y bartneriaeth.

6. Gweithgareddau Adfywio Cymunedol

6.1 Ni cheir adroddiad ar weithgareddau y tro hwn.

7. Argymhelliad

7.1 Aelodau'r Grŵp Llywio i dderbyn cynnwys yr adroddiad.

ATODIAD 1

Llwyddo'n Lleol

BWLETIN (Mehefin 2008)

Enw'r Bartneriaeth: **Partneriaeth Economaidd Gwynedd (Is-Grwp Llwyddo'n Lleol)**

Dyddiad y cyfarfod: **d/p**

Prif bwyntiau gweithredu o'r cyfarfod:

Materion i sylw'r Bwrdd Llywio:

1. Archwiliad

1.1 Mae swyddogion y rhaglen wedi bod yn brysur iawn yn cynorthwyo archwilydd Llywodraeth Cynulliad Cymru dros y cyfnod diwethaf. Mae'r archwiliad bellach wedi'i gwblhau, ac rydym yn disgwyl adborth o fewn y dyddiau nesaf.

2. Cais Llwyddo'n Lleol – Cydgyfeirio

2.1 Rydym bellach wedi derbyn sylwadau gan WEFO ynglyn â'r Datganiad o Ddiddordeb cyflwynwyd Mis Mawrth parthed ehangu gwaith Llwyddo'n Lleol ar draws ardal Gogledd Orllewin Cymru. Byddem yn ychwanegu gwybodaeth i ymateb i'r sylwadau yma, a'i ail-gyflwyno cyn gynted a phosib.

3. Allbynnau 2008/09 yn Erbyn Targedau

3.1 Byddem yn adrodd yn ol ar allbynnau Chwarter 1 2008/09 yn y cyfarfod nesaf

Unrhyw faterion penodol i bartneriaethau eraill (nodwch pa un):

dim

Enw cydlynydd:

Person sy'n gyfrifol am

Nia Swann Bowden
01286 679774
NiaSwannBowden@gwynedd.gov.uk

Nia Swann Bowden

Tîm Rheoli Cefnogi Busnes Gwynedd

BWLETIN (Mehefin 2008)

Enw'r Bartneriaeth: **Partneriaeth Economaidd Gwynedd**

Materion i sylw'r Bwrdd Llywio:

Gan nad yw'r Tîm Rheoli Cefnogi Busnes wedi cwrdd ers 26 Tachwedd 2007 hoffwn ddiweddaru'r Bartneriaeth o'r canlynol sy'n berthnasol i'r maes Cefnogi Busnes: -

Pecyn Datblygu Busnes Gwedd 2 - Hyd at 31 Mawrth 2008, derbyniwyd 872 o geisiadau llawn gan gyfanswm o 687 o fusnesau ynghyd â nifer o ymholiadau cychwynnol am grantiau. Mae grantiau sydd yn dod i gyfanswm o £1,349,970 wedi cael eu rhyddhau i fusnesau wedi iddynt gwblhau eu prosiectau. O ganlyniad i brosiectau cael eu cwblhau, ac o'r wybodaeth a gyflwynwyd gan yr ymgeiswyr, mae Gwynedd, ar y cyfan, wedi cyflawni'r hyn a ganlyn:

Allbynnau: -

	Targed Gwreiddiol	Targed Diwygiedig	Gwir
Nifer o swyddi newydd	200	273	319
Nifer o swyddi wedi diogelu	256	496	496
Nifer o fusnesau newydd yn derbyn cymorth ariannol	63	192	210
Nifer o fusnesau sy'n bodoli eisoes yn derbyn cymorth ariannol	140	280	298
Cynnydd trosiant mewn busnesau sydd wedi derbyn cymorth	£3M	£8.58M	£9.06M
Buddsoddiad sector preifat	£1.29M	£2.2M	£2.3M

Yn ddiweddar mae'r Cyngor wedi derbyn ragor o arian Amcan 1 ar gyfer y Pecyn Datblygu Busnes ac mewn sefyllfa i ystyried ceisiadau grant newydd.

Wythnos Busnes a Gwobrau Busnes Gwynedd 2008 a 2009 – Fe gynhaliwyd Wythnos Busnes Gwynedd eleni rhwng 12 a'r 16 Fai 2008. Yn ystod yr wythnos trefnwyd 6 prif ddigwyddiad gyda Chinio Gala ar y nos Iau yng Nghanolfan Rheolaeth, Prifysgol Bangor fel uchafbwynt yr wythnos (gweler gwefan www.wythnosbusnes.co.uk) . Siaradwr gwadd ar gyfer y noson oedd Mr Mervyn Davies CBE, Cadeirydd Standard Chartered plc ers Tachwedd 2006 a Chadeirydd Cyngor Prifysgol Bangor ers Tachwedd 2007.

Hefyd, yn ystod y noson fe gyflwynwyd Gwobr Cyfraniad Arbennig i Mr Robin Llewelyn o Bortmeirion gan Rwydwaith Busnes Gwynedd er mwyn cydnabod unigolyn sydd wedi cyfrannu'n sylweddol at y sector busnes yng Ngwynedd dros y blynyddoedd.

Gwasanaeth Llygad Busnes Gwynedd - mae'r Gwasanaeth yn cynnig gwybodaeth ac arwyddbost di-dâl, diduedd i fusnesau yng Ngwynedd, ac os ydyw'n addas eu rhoi nhw mewn cysylltiad â chefnogaeth o'r sector preifat, cyhoeddus neu wirfoddol.

Er gwybodaeth, yng Ngwynedd, mae Canolfannau Llygad Busnes wedi eu lleoli yng Nghaernarfon, Pwllheli a Dolgellau ac mae 5 aelod o staff yn cael eu cyflogi er mwyn gweithredu'r Gwasanaeth. Yn ystod 2007/08, mae'r Gwasanaeth yng Ngwynedd wedi ymdrin ag oddeutu 1,600 o ymholiadau busnes ac o'r wybodaeth a dderbyniwyd yn un o'r ardaloedd mwyaf gweithgar yng Nghymru.

Mae'r Cynulliad eisoes wedi penderfynu ymestyn y contract presennol tan ddiwedd mis Mawrth 2009 ond rydym yn ymwybodol o fwriad y Cynulliad i ad-drefnu strwythur y Gwasanaeth i'r dyfodol. Mi fyddaf mewn sefyllfa i ddiweddaru'r Bartneriaeth yn ystod cyfarfod nesaf o'r Grŵp Llywio.

Rhaglen waith y Tîm Rheoli Cefnogi Busnes - Mi fydd y Tîm yn cael cyflwyniad ac yn ystyried materion sy'n ymwneud a fframwaith cefnogi busnes newydd y Cynulliad, sef 'Cymorth Hyblyg i Fusnes', yn ystod y cyfarfod nesaf, sydd i'w cynnal ar 1 Gorffennaf yn Warws Werdd, Caernarfon

Materion eraill a fydd yn cael eu trafod yn y dyfodol yw: -

- Tir ac eiddo diwydiannol
- Datblygu sectorau economaidd

Enw cydlynydd: Colin Morris
Rhif Ffôn: 01286 679677
Ebost: colinm@gwynedd.gov.uk

Person sy'n gyfrifol am y cofnodion: Colin Morris

Diweddariad Rhaglenni Ewropeaidd

Diweddariad Rhaglenni Ewropeaidd

CYFARFOD:	Grŵp Llywio Partneriaeth Economaidd Gwynedd
DYDDIAD:	6ed o Fehefin, 2008
PWRPAS:	Diweddaru Aelodau'r Bartneriaeth ar weithredu Rhaglenni Ewropeaidd 2000 - 2006 ac ar ddatblygu Rhaglenni Ewropeaidd 2007 - 2013
ARGYMHELLIAD:	Nodi cynnwys yr adroddiad
AWDUR:	Sioned E. Williams Pennaeth Gwasanaeth Economi ac Adfywio

1. Cyflwyniad

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw diweddaru Aelodau Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn gryno ar weithredu Rhaglenni Ewropeaidd 2000 - 2006 ac ar ddatblygu Rhaglenni Ewropeaidd 2007 - 2013, yn benodol:

- Rhaglen Amcan 1 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd 2000 - 2006
- Rhaglen Cydweithio Tiriogaethol Cymru - Iwerddon 2007 - 2013
- Rhaglen Cydgyfeirio Gorllewin Cymru a'r Cymoedd 2007 - 2013
- Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007 – 2013

2. Rhaglen Amcan 1

2.1 Arian Ychwanegol
Bydd yr aelodau yn ymwybodol fod arian ychwanegol o fewn y rhaglen yn sgìl amrywiad yn y gyfradd gyfnewid rhwng y Bunt a'r Ewro yn ogystal â newidiadau yn yr ymrwymiadau gwario. Mae'r arian ychwanegol ar gael dros bob mesur gan eithrio FIFG. Cysylltodd yr Ysgrifenyddiaeth a nifer o brosiectau i'w hysbysu o'r cyfle. Roedd WEFO am ystyried ceisiadau am gyllid gan brosiectau sydd yn bodoli eisoes yn unig a hynny achos wrth achos. Deallir fod nifer o brosiectau Gwynedd wedi bod mewn cyswllt a WEFO, mae trafodaethau yn parhau, bydd y darlun yn gliriach yn fuan a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y bartneriaeth.

2.2 Ôl-ofal:
Mae rôl a chyfrifoldebau'r Ysgrifenyddiaeth y Bartneriaeth yn darparu cyngor a chymorth i reolwyr prosiectau Amcan 1 yng Ngwynedd yn parhau. Ceir adroddiad cynhwysfawr ar y diweddaraf yn Eitem 6.

2.3 Cyhoeddusrwydd:
Mae'r Bartneriaeth yn parhau i weithio'n ymarferol i sicrhau cyhoeddusrwydd cadarnhaol yn lleol ar gyfer y rhaglen. Bydd erthygl a hysbyseb ar ran y Bartneriaeth Economaidd yn cyfeirio at lwyddiannau'r rhaglen Amcan 1 yng Ngwynedd yn y Western Mail mis Mehefin.

2.5 Tynnir sylw'r aelodau i Eitem 7, ble cyfeirir at waith i ddiweddaru Delwedd a Brand y bartneriaeth.

3. Rhaglen Cydweithio Tiriogaethol Cymru / Iwerddon

3.1 Lansiwyd Rhaglen Cymru Iwerddon 2007 - 2013 yn swyddogol yn Llandudno ar 7fed o Ragfyr 2007. Caeodd yr alwad gyntaf am geisiadau ar y 18fed o Ionawr. Deallir bod 52 o ddatganiadau o ddiddordeb wedi eu cyflwyno yn ystod yr alwad gyntaf gyda 13 o'r rhain o'r Gogledd. Rhagwelir bydd galwad am geisiadau ddwywaith y flwyddyn, gyda'r nesaf wedi ei raglennu ar gyfer mis Gorffennaf.

3.2 Mae gwybodaeth bellach ar y rhaglen ar gael trwy wefan **www.irelandwales.ie** sy'n darparu gwybodaeth gyswllt ar gyfer ymgeiswyr sy'n datblygu syniadau ynghyd a'r dogfennau perthnasol. Atgoffir yr aelodau bod cynllun WIN 2 (Rhwydwaith Cymru Iwerddon) nawr ar gael i helpu ffurfio partneriaethau a all arwain at gyflwyno ceisiadau ar gyfer prosiectau. Mae'r cynllun yn darparu cymorth ariannol i fudiadau cymwys er mwyn talu am gostau teithio a chynhaliaeth. Mae ffurflen gais ac arweiniad ar gael ar y wefan yn ogystal.

3.3 Atgoffir aelodau y dylai unrhyw un sydd a diddordeb yn y rhaglen gysylltu a Swyddog Datblygu'r Gogledd - Roger Seddon yn WEFO ar 01492 542594 neu roger.seddon@wales.gsi.gov.uk

4. Rhaglen Cydgyfeirio

4.1 Deallir fod 13 prosiect wedi cael eu cymeradwyo hyd yn hyn ar draws elfennau ERDF ac ESF o'r rhaglen sydd yn cyfateb i gynlluniau gwerth £353m gyda chyllid Ewropeaidd o £178m

4.2 Mae'r gwaith o baratoi prosiectau ar lefel Gwynedd a'r Gogledd Orllewin yn mynd rhagddi. Cyfeiria'r rhestr isod at rai o'r cynlluniau blaenoriaeth fel y cytunwyd yn Seminar Pwyllgor Craffu Datblygu ar y 26ain o Chwefror, gan nodi ar ba lefel datblygiad maent ar hyn o bryd;

- Llwyddo'n Lleol – Adborth wedi ei dderbyn ar y Datganiad o Ddiddordeb, gweithio i ymateb i'r hyn godwyd.
- Canolfan Sgiliau a Mentergarwch – Ffurflen Gwybodaeth Prosiect (PIF) ar wefan WEFO.
- Datblygu'r Sector Awyr Agored – PIF ar wefan WEFO
- Academi Hwylio Gogledd Cymru – PIF ar wefan WEFO
- Cylchoedd Dehongli – PIF ar wefan WEFO
- Tir ac Eiddo Cyflogaeth – Rhestr prosiectau yn cael ei drefnu
- Pecyn Datblygu Busnes – Adborth wedi ei dderbyn ar y Datganiad o Ddiddordeb, gweithio i ymateb i'r hyn godwyd.
- Pont Briwet, Penrhyndeudraeth – PIF ar wefan WEFO
- Adfywio Cymunedol – Datganiad o Ddiddordeb wedi ei gyflwyno.

4.3 Timau Ewropeaidd Gofodol:

Mae cais am gyllid Cymorth Technegol gan y Rhaglen i gefnogi gwaith y Timau Ewropeaidd Gofodol (SETS) a fydd yn darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i ymgeiswyr prosiect yn ystod oes y rhaglen wedi ei dderbyn mewn egwyddor. Disgwylir cadarnhad terfynol yn fuan yn dilyn datblygu cytundebau lefel gwasanaeth a chytundeb terfynol ar y maes gwaith. Cyfarfu'r swyddogion o ledled y Gogledd Orllewin sy'n debygol o fod ynghlwm a'r SET's yn cyfarfod ar y 20fed o Fai.

4.4 Fframweithiau Strategol:

Mae holl Fframweithiau Strategol ERDF bellach gyda statws 'wedi cytuno' arnynt ar wefan WEFO, yn ogystal â holl Fframweithiau Strategol ESF sydd hefyd gyda'r statws 'wedi cytuno'.

4.5 Ffurflenni Gwybodaeth Prosiectau:

Mae 758 o Ffurflenni Gwybodaeth Prosiectau gan amrywiaeth o asiantaethau a mudiadau wedi eu cofnodi ar wefan WEFO hyd yma. Deallir fod yna 244 o geisiadau am ffurflen datganiad o ddiddordeb wedi ei chyflwyno i WEFO, o'r rhain mae 131 wedi cael eu cyflwyno am benderfyniad. Ymddengys fod 24% o'r rhain gan y Cynulliad, 36% gan Awdurdodau Lleol, 14% o'r sector breifat a 26% o'r 3ydd sector.

4.6 Tynnir sylw'r Aelodau fod gwybodaeth am gynlluniau sydd wedi cyflwyno Datganiadau o Ddiddordeb ar gael ar wefan WEFO drwy'r cyswllt isod;

http://www.wefo.wales.gov.uk/resource/Projects-approved-and-EOIs-submitted-for-website2600.pdf

4.7 Cynlluniau Cenedlaethol:

Mae'r 5 cais rhanbarthol trwy Flaenoriaeth 4 Them 3 – Amgylchedd ar gyfer tŵf (Cyfeirwyd atynt yn adroddiad mis Ionawr) yn parhau i gael eu datblygu. Cynhaliwyd Sioe Daith ar yr 2il o Fai, ble cafwyd cyfle i glywed y datblygiadau diweddaraf. Dylidnodi fod llawer o waith i'w wneud ar y cynlluniau, a bod gwybodaeth ar sut yn union y gweithredir y cynlluniau yn aneglur. Mae syniadau prosiect yn cael eu bwydo i'r swyddogion datblygu prosiect o Croeso Cymru, CADW a'r Cyngor Cefngwlad er mwyn sicrhau fod cynlluniau blaenoriaeth yn cael eu hadnabod.

4.8 Ceir copi papur o gyflwyniad diweddar gan Gretel Leeb, Cyfarwyddwraig Uned Rheoli Rhaglenni, WEFO yn Atodiad 1. Tynnir sylw'r Aelodau yn arbennig at y diagramau sydd yn dangos cynnydd wrth fframwaith

5. Cynllun Datblygu Gwledig Cymru

5.1 Mae Aelodau yn ymwybodol y cyflwynwyd Cynllun Busnes a Phrosiectau Arfaethedig Gwynedd ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig hyd at 2010 yn Nhachwedd, 2007.

5.2 Derbyniwyd gwybodaeth yn ddiweddar fod y gwaith o asesu ceisiadau prosiect o dan Echel 3 & 4 yn dod at y diwedd, disgwylir cyhoeddiad am y cynlluniau llwyddiannus ar yr 20fed o Fehefin, 2008.

6. Argymhelliad

6.1 Aelodau'r Bartneriaeth i dderbyn cynnwys yr adroddiad.

Adroddiad Ôl-ofal

Gwasanaeth ôl-ofal PEG

CYFARFOD:	**Grŵp Llywio Partneriaeth Economaidd Gwynedd**
DYDDIAD:	**6ed Mehefin 2008**
PWRPAS:	**Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau am weithgareddau ôl-ofal**
ARGYMHELLIAD:	**Nodi cynnwys yr adroddiad**
AWDUR	**Sioned E. Williams** **Pennaeth Gwasanaeth Economi ac Adfywio**

1. Cefndir

1.1 Ers 2000, mae'r Bartneriaeth wedi chwarae rôl bwysig o ran darparu cyngor a chefnogaeth i 102 o noddwyr prosiectau Amcan 1 yn ystod oes y rhaglen.

1.2 Gyda'r Rhaglen Amcan 1 yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2008, cynhaliodd Ysgrifenyddiaeth y Bartneriaeth adolygiad o bob un o'r 102 prosiect gan yna gysylltu â 47 noddwyr prosiect ym mis Ionawr 2008 i gynnig cefnogaeth ddilynol. Daw'r rhan fwyaf o'r sefydliadau y cysylltwyd â hwy o'r sectorau gwirfoddol, cymunedol a busnes, yn rhedeg prosiectau yn creu elfen fasnachol / codi incwm, roedd hyn yn dilyn cytundeb WEFO y gellid defnyddio arian o gyllid Cymorth Technegol y Bartneriaeth i roi cymorth arbenigol mewn blaen gynllunio busnes i noddwyr prosiect sy'n ceisio sicrhau cynaladwyedd tymor hir ar gyfer eu gweithgareddau.

1.3 Hyd yn hyn, mae 26 o'r noddwyr prosiectau wedi derbyn y cynnig a chynhaliwyd cyfarfodydd dros y chwe mis diwethaf - **rhestr Atodiad 1**. Bwriedir cynnal 3 cyfarfod pellach dros yr wythnosau nesaf.

1.4 Ar ben hynny, mae 16 prosiect yn dal yn weithredol yng Ngwynedd ac maent i fod i ddirwyn i ben ar 30ain Mehefin 2008. Mae WEFO wedi cadarnhau bod y Comisiwn Ewropeaidd wedi rhoi estyniad iddynt gau'r rhaglen ERDF yn hwyrach felly mae'n debygol y bydd cyfnod prosiect y cynlluniau hyn yn cael ei ymestyn. Yn yr achosion hyn, mae Ysgrifenyddiaeth y Bartneriaeth yn dilyn trywydd datblygiadau'n ofalus ac mae'n cynnig cefnogaeth ôl-ofal barhaus cyn hired ag y bydd angen hynny – **rhestr Atodiad 2**.

2. Canfyddiadau Allweddol

2.1 Dywedodd y rhan fwyaf o'r noddwyr prosiectau eu bod yn fodlon iawn â'r gefnogaeth a'r cyngor a roddwyd trwy gydol y broses gan y Bartneriaeth, y swyddogion ôl-ofal, swyddogion datblygu WEFO a thimau Erthygl 4 ac Erthygl 10.

2.2. Mewn sawl achos, dywedodd y noddwyr prosiectau bod prosiectau'n talu eu costau neu'n gwneud elw bychan i gefnogi eu hunain yn gynaliadwy ac maent yn chwilio am arian ychwanegol ar gyfer gweithgareddau i gynyddu'r elw ac i sicrhau cynaliadwyedd dros dymor hwy.

2.3 Mewn rhai achosion, mae prosiectau wedi dirwyn i ben yn naturiol ac mae noddwyr prosiectau yn dilyn datblygiadau a chyfleoedd yn y rhaglenni newydd er mwyn rhoi syniadau ar waith.

2.4 O'r 26 cyfarfod a gynhaliwyd, gwelwyd sawl achos lle cafodd materion eu datrys yn gyflym heb fod angen cymryd camau pellach e.e. rhoi cyngor am gadw dogfennau a gofynion cyhoeddusrwydd parhaus ayb.

2.5 Ceir 11 o enghreifftiau ble mae noddwyr prosiect wedi gofyn am gael mewnbwn ychwanegol gan ymgynghorwyr allanol i'w cynorthwyo i gynllunio er mwyn sicrhau cynaladwyedd tymor hir. Er mwyn darparu'r gefnogaeth hon, mae'r Bartneriaeth wedi penodi ystod o ymgynghorwyr arbenigol mewn meysydd megis: adolygu, herio a diweddaru cynllun busnes, dadansoddiad llif arian, adnabod cyfleoedd ar gyfer datblygu, adolygu marchnad a chyfleoedd marchnad a.y.y.b. Mae'r ymgynghorwyr a gafodd eu penodi yn cynorthwyo noddwyr prosiect (gan roi ar gyfartaledd, hyd at 3 diwrnod o wasanaeth a chyngor).

3. Argymhelliad

7.1 Aelodau'r Grŵp Llywio i dderbyn cynnwys yr adroddiad hwn.

Atodiad 1

Noddwyr	Prosiect
Cwmni Adfywio Abergwyngregyn	Adfywiad yr Hen Felin Abergwyngregyn
Caban Cyf.	Canolfan Gelf a Dylunio Eryri
Cwmni Caban Gerlan Cyf.	Caban Gerlan
Canolfan Gadwraeth y Faenol	Faenol Cyf.
Canofan Cymunedol Abergynolwyn	Pwyllgor Neuadd Pentref Abergynolwyn
Cyngor Cymuned Trawsfynydd	Canolfan Datblygu Cymuned a Menter, Trawsfynydd (Llys Ednowain)
Ogofau Corris Cyf.	Datblygiad Canofan Grefft Corris
Cwmni Seren Cyf.	Cylch yr Efail
Cyfle Cyf.	Datblygu Cynhyrchwyr
Cyfle Cyf.	Datblygu Cynhyrchwyr (2004 – 2006)
Cymdeithas Pysgotwyr Llyn	Swyddog Datblygu Cymdeithas Pysgotwyr Llyn (Rhan 2)
Cymdeithas Pysgotwyr Llyn	Uwchgraddio Cyarpar Diogelwch ar gyfer Cymdeithas Pysgotwyr Llyn
Deudraeth Cyf.	Y Dyffryn Digidol
Eryri Bywiol	Eryri Bywiol
Adfywio Neuadd Corris	Pwllgor Neuadd Corris
Canolfan Ddatblygu Rheolaeth Gogledd Orllewin Cymru	Prifysgol Bangor
Menter Fachwen	Pentre Dysg Padarn
Menter Fachwen	Prosiect Dyffryn Peris
Menter Fachwen	Popty Prysur
Cwmni Cydweithredol Tafan y Fic	Tafan y Fic
Cymdeithas Gymunedol y Bermo	Canolfan Gymunedol Abermaw a Theatr y Ddraig
Ymddiriedolaeth Taliesin Cyf.	Tŷ Newydd, Canolfan Ysgifennu Genedlaethol Cymru
Cwmni Ty Siamas Cyf.	Tŷ Siamas
Antur Waunfawr	Warws Werdd
Meithrinfa Meirion Cyf.	Meithrinfa Meirion, Brithdir
Awdurdod Ymchwil y Coedwigoedd	Prosiect Twristiaeth Gynaliadwy Parc Coedwig Coed y Brenin

Atodiad 2

Noddwyr	Prosiect
Cymdeithas Tai Eryri	Datblygu Tŷ Cymunedol Peblig
Cyngor Gwynedd Council	Cronfa Allweddol Gwynedd
Cwmni Caban Gerlan Cyf.	Caban Gerlan
Canolfan Hanes Uwchgyrfai	Canolfan Hanes Uwchgyrfai
Coleg Meirion Dwyfor	CEGIN
Antur Penllyn	Canolfan Cywain
Parc Cenedlaethol Eryri	Copa'r Wyddfa
Cwmni Seren Cyf.	Cylch yr Efail
Glynllifon Ltd.	Glynllifon Mansion
Parc Cenedlaethol Eryri	Rheoli Llwybrau Ucheldir Eryri
Cymdeithas Pysgotwyr Llyn	Swyddog Datblygu Cymdeithas Pysgotwyr Llyn (Rhan 2)
Parc Cenedlaethol Eryri	Rhaglen Rheoli Tir Eryri
Canolfan Ddatblygu Rheolaeth Gogledd Orllewin Cymru	Prifysgol Bangor
Menter Fachwen	Prosiect Dyffryn Peris
Cwmni Ty Siamas Cyf.	Tŷ Siamas
Awdurdod Ymchwil y Coedwigoedd	Prosiect Rheoli Cynefin Coedtiroedd Derw Meirionnydd.

Adolygu'r Ddelwedd a'r Brand

Adolygu a Diweddaru'r Ddelwedd a'r Brand

CYFARFOD:	Grŵp Llywio Partneriaeth Economaidd Gwynedd
DYDDIAD:	6ed o Fehefin, 2008
PWRPAS:	Cadarnhau dull o weithredu ar gyfer Adolygu a Diweddaru'r Ddelwedd a'r Brand.
ARGYMHELLIAD:	Cynnal Adolygiad a phenodi Grŵp Ffocws
AWDUR:	Sioned E. Williams Pennaeth Gwasanaeth Economi ac Adfywio

1. Cefndir

1.1 Gyda chyfnod Amcan 1 yn dod i ben, mae'r Ysgrifenyddiaeth yn awyddus i edrych yn fanwl ar ddelwedd a brand Partneriaeth Economaidd Gwynedd fyddai'n adlewyrchu llwyddiannau'r gorffennol ac edrych ymlaen am gyfnod llwyddiannus arall i'r Bartneriaeth ac i Wynedd.

2. Gweithredu

2.1 Dymuna'r Ysgrifenyddiaeth gyda chytundeb yr Aelodau benodi ymgynghorydd deinamig i adolygu a diweddaru brand a'r ddelwedd gan gynnig syniadau a'r weithredu'r argymhellion.

2.2 Byddwn yn dymuno penodi ar sail gallu'r ymgynghorydd i gyflawni'r canlynol;

- Adolygu delwedd a brand presennol Partneriaeth Economaidd Gwynedd
- Cynnig syniadau newydd a dyfeisgar ar gyfer y ddelwedd a'r brand
- Adolygu a diweddaru'r brand yn cynnwys ail ystyried y logo a pharatoi slogan ddychmygus
- Paratoi cynllun gweithredu yn seiliedig ar y brand a'r ddelwedd newydd yn cynnwys syniadau dyfeisgar am ddeunyddiau a dulliau marchnata.

2.3 Disgwylir i'r sawl a benodir fynychu sesiwn cynhyrchu syniadau gyda dirprwyaeth o Grŵp Llywio Partneriaeth Economaidd Gwynedd, ynghyd â chynnal sesiwn gyflwyno syniadau cyn cynnig fersiwn terfynol.

2.4 Bydd polisi dwyieithog y Bartneriaeth a'r dymuniad i gyfleu delwedd gyfoes o PEG a'r Sir yn cael eu hystyried wrth ddatblygu syniadau.

2.4 Mae'r Ysgrifenyddiaeth eisoes wedi sicrhau cyllid i weithredu'r argymhellion a wneir yn y cynllun gweithredu trwy law cyllid Cymorth Technegol o'r rhaglen Amcan 1.

3. Argymhelliad

3.1 Yr Aelodau i gytuno i'r adolygiad drwy benodi Ymgynghorwyr

3.2 Cytuno i ddethol 1 cynrychiolydd o bob sector fel dirprwyaeth / grŵp ffocws i gynorthwyo'r Ysgrifenyddiaeth i weithredu.

Adolygiad Blynyddol o Aelodaeth

Adolygiad Blynyddol o Aelodaeth - Adroddiad

CYFARFOD:	Grŵp Llywio Partneriaeth Economaidd Gwynedd
DYDDIAD:	6ed o Fehefin, 2008
PWRPAS:	Adrodd nôl ar yr Adolygiad Blynyddol o Aelodaeth.
ARGYMHELLIAD:	Penodi aelodau newydd i'r Grŵp Llywio ac annog aelodau i fynychu cyfarfodydd
AWDUR:	Sioned E. Williams Pennaeth Gwasanaeth Economi ac Adfywio

1. Cefndir

1.1 Mae cynnal adolygiad blynyddol o Aelodaeth Grŵp Llywio Partneriaeth Economaidd Gwynedd yn rhan o gyfansoddiad y Bartneriaeth, cytunodd yr Aelodau i ymgymryd â'r dasg hon eleni yng nghyfarfod mis Ionawr. Ceir yma adroddiad ar y canlyniadau.

2. Canlyniadau

2.1 Gyrrwyd 61 o holiaduron i'r Aelodau Llawn ac Eilyddion Grŵp Llywio'r Bartneriaeth, derbyniwyd 42 yn eu holau (68 %).

2.2 Nododd 40 eu bod yn dymuno parhau fel Aelod Llawn neu Eilydd a derbyniwyd 2 holiadur fel rhybudd o'u bwriad i ymddiswyddo. Tynnir sylw'r Aelodau mai yr Athro Sian Hope oedd un, yn cynrychioli Prifysgol Bangor fel Aelod Llawn a Anthony Jarret oedd y llall yn cynrychioli Cynllun Llwybro, Llywodraeth y Cynulliad fel sylwebydd.

2.3 Ceir cadarnhad ar ffurf taenlen yn Atodiad 1 a 2, ble nodir hefyd sawl cyfarfod mae'r Aelodau llawn a'r Eilyddion wedi ei fynychu yn y flwyddyn ddiwethaf (Rhwng Ebrill '07 ac Ebrill '08, sef 7 cyfarfod). Nodir mewn rhai achosion fod y canran yn isel.

2.4 Fel mae'r Aelodau yn ymwybodol, cynhaliwyd etholiadau Llywodraeth Leol ar y 1af o Fai, 2008. Yn sgil yr etholiadau bydd Cyngor Gwynedd yn dewis cynrychiolydd newydd i'r Bartneriaeth. Yn ychwanegol, yn dilyn yr etholiadau mae un cynghorydd o'r Sector Gymunedol sef y Cyng. Dyfed Edwards wedi cynnig ei ymddiswyddiad o ganlyniad i ymrwymiadau eraill.

2.5 Tynnir sylw'r Aelodau fod David Joyner eisoes yn cynrychioli Prifysgol Bangor yn absenoldeb yr Athro Siân Hope ers cyfnod.

3. Ystyriaethau

3.1 Bydd angen llenwi'r bylchau ar Grŵp Llywio'r Bartneriaeth, a hynny trwy ddyrchafu eilyddion i statws Aelod llawn ble'n bosib. Mewn achos fod person yn cynrychioli

sefydliad, bydd gofyn i'r sefydliad hwnnw gynnig cynrychiolydd arall. Mae felly yn hynod bwysig fod Aelodau yn nodi os ydynt ar y Bartneriaeth yn cynrychioli Sefydliad neu yntau fel Unigolyn. Mae cadarnhau'r statws yma yn bwysig ac yn hwyluso'r drefn o ethol Grŵp Llywio cynrychioliadol.

3.2 Trwy dderbyn y diswyddiadau a chanlyniad yr etholiad mae 2 le gwag ar Grŵp Llywio'r Bartneriaeth, gyda'r cyn Aelodau yn cynrychioli Sefydliadau. Canlyniad ymarferol y newid felly yw er bod yr unigolion wedi ymddiswyddo mae'r sefydliadau yn parhau i fod yn aelodau o'r Grŵp Llywio.

4. Argymhelliad

4.1 Fod Aelodau yn cytuno i lenwi'r bylchau fel bod cydbwysedd sectorau yn cael ei adfer a chytuno i;

- Gadarnhau David Joyner fel cynrychiolydd Prifysgol Bangor.
- Ysgrifenyddiaeth yn cysylltu ag Antur Nantlle a Chyngor Gwynedd gan ofyn i'r sefydliadau enwebu aelod newydd.

4.2 Fod yr Ysgrifenyddiaeth yn ysgrifennu i'r Aelodau Llawn o'r Grŵp Llywio sydd wedi mynychu llai na 25% o'r cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn diwethaf i'w hannog i fod yn bresennol.

Enw	Sector	Nifer o gyfarfodydd (Ebrill '07 i Ebrill '08 = 7 cyfarfod)	Unigolyn (U) neu Sefydliad (S)	Dymuno Parhau Nodyn
Peter Clarke	Preifat	4 – 57%	S – TIC Cymru	
Rhys Davies	Preifat	3 – 42%	S – Camre Cymru	
Anne Lloyd Jones	Preifat	2 – 14%	U -	
Tim Knight	Preifat	6 – 86%	S – National Skills Academy	
Dewi Lewis	Preifat	7 – 100%	S – Siop Dewi	
Gwynedd Watkin	Preifat	5 – 71%	S – Undeb Amaethwyr Cymru	
Eiddwen Borland	Cyhoeddus	5 – 71%		Heb ddychwelyd
Sian Hope	Cyhoeddus	- - 0%	S – Prifysgol Cymru Bangor	
Dafydd Iwan	Cyhoeddus	2 – 14%	S – Cyngor Gwynedd	
David Joyner	Cyhoeddus	2 – 14%	S – Prifysgol Cymru Bangor	
Emyr Williams	Cyhoeddus	2 – 14%	S – Parc Cenedlaethol Eryri	
Ffiona Williams	Cyhoeddus	4 – 57%	S – Gyrfa Cymru	
Alex Badley	Gwirfoddol	5 – 71%		Heb ddychwelyd
Eleri Evans	Gwirfoddol	- - 0%	S – Mudiad Ffermwyr Ifanc Eryri	
Menna Jones	Gwrifoddol	6 – 86%	U – Antur Waunfawr	
Bethan Russell Owen	Gwirfoddol	6 – 86%		Heb ddychwelyd
Catrin Lloyd Perry	Gwirfoddol	6 – 86%	S – Coleg Harlech – WEA	
Y Tad Deiniol	Cymunedol	7 – 100%	S – Yn ein Blaenau	
Dyfed Edwards	Cymunedol	3 – 42%	S – Antur Nantlle	
Llyr Huws Gruffydd	Cymunedol	4 – 57%	S – Menter a Busnes	
Dorothy Hughes	Cymunedol	4 – 57%	U – Un llais Cymru	
Godfrey Northam	Cymunedol	4 – 71%	U – Cynghorau Cymunedol	

= Wedi Ymddiswyddo

Crynodeb Sector

Preifat = 6 (27%)
Cyhoeddus = 6 (27%)
Gwirfoddol = 5 (23%)
Cymunedol = 5 (23%)

Enw	Sector	Nifer o gyfarfodydd	Unigolyn neu Sefydliad	Dymuno Parhau Nodyn
Abdul-Aziz Barazi	Preifat	-	S -	
Guto Bebb	Preifat	-	S – Partneriaeth Egin	
Barry Bracegirdle	Preifat	-	S – Undeb y GMB	
Adrian Clarke	Preifat	-		Heb dderbyn
Wendy Crisp	Preifat	-	S/U – Yr Hwylfan	
Aneuryn Jones	Preifat	-	S -	
Evie Wyn Jones	Preifat	6 – 86%	S – Busnes Eryri	
Robin Meredith	Preifat	-	U – Meredith a'I Fab	
John Alan Morris	Preifat	4 – 57%	S – J Morris	
Robert O'Regan	Preifat	3 – 43%	S – Parker, O'Regan, Tann and Co	
Geraint Wyn Parry	Preifat	3 – 43%	U – Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru	
Philip Potter	Preifat	-	U – Dryad Furnace	
Alun Roberts	Preifat	-	S – Jacal Cyf	
Dylan Llewelyn Roberts	Preifat	1 – 14%	U – Llywelyn Historical Tours	
Ioan Thomas	Preifat	-	S – Cofi Roc Cyf	
Huw Watkins	Preifat	-	S – Bic Innovation	
Sian M Williams	Preifat	1 – 14%		Heb dderbyn
David Evans	Cyhoeddus	-		
Sarah Finnegan-Dehn	Cyhoeddus	-	S – Gyrfa Cymru	
Ruth Jenkins	Cyhoeddus	-	S – Comisiwn Coedwigaeth	
Gwennan Jones	Cyhoeddus	1 – 14%		Heb dderbyn
Keith O'Brien	Cyhoeddus	2 – 29%		Heb dderbyn
Bill Bracewell	Gwirf a chym	-	S – Partneriaeth Aberdyfi	
Eluned Davies	Gwirf a chym	-	S – Caban Cyf	
Ifor Daniel Moody	Gwirf a chym	-	S – Cygor Tref Towyn	
Kenoue Morgan	Gwirf a chym	3 – 43%	S – Deudraeth Cyf	
John Raghoobar	Gwirf a chym	-		Heb dderbyn
Alison Williams	Gwirf a chym	-	S – Theatr y Ddraig	
Iscoed Williams	Gwirf a chym	2 – 29%	S – Trawsnewid	

Sean Wood	Gwirf a chym	-	S – Y Faenol	
Chris Wright	Gwirf a chym	-		Heb dderbyn